Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Traed Bech Twymyn**

**Neuadd Cemaes**
**Cemaes**
**Machynlleth**
**SY20 9PR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/09/2023

# Cylch Meithrin Traed Bech Twymyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Traed Bech Twymyn |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Mawrth 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried themâu gofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn

Mae'r plant wedi setlo ac yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni. Maent wedi meithrin cysylltiadau emosiynol cadarnhaol a chydberthnasau llawn hoffter â'r staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Mae’r plant yn teimlo'n hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad.

Mae'r staff gofal yn gweithredu mewn ffordd gyson, maent yn ystyried y plant yn unigol ac yn modelu ymddygiad da. Mae'r staff gofal yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar ac yn trin y plant ag urddas a pharch.

Caiff y plant ofal mewn amgylchedd diogel a glân. Caiff y safle ei gynnal a'i gadw'n dda a cheir cyfleusterau, adnoddau a chyfarpar addas. Mae dodrefn a theganau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymdrin â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn y ddau hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a'r maes i'w wella a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Maent wedi ymdrin â'r rhan fwyaf o'r argymhellion. Fodd bynnag, nid ymdriniwyd â dau ohonynt, a cheir amlinelliad ohonynt ar ddiwedd yr adroddiad. Caiff y rhain eu profi yn yr arolygiad llawn nesaf.

## Llesiant

Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Dewisodd rhai o'r plant chwarae â phosau ben bwrdd a jig-sos a dewisodd eraill chwarae â'r cerbydau a'r tractorau. Yn ystod amser cylch, rhoddwyd cyfle i'r plant nad oeddent eisiau eistedd ar y mat estyn cadair er mwyn eistedd a gwrando. Maent yn nodi dyddiau'r wythnos a'r tywydd y tu allan yn ofalus cyn penderfynu pa gân yr hoffent wrando arni.

Mae'r plant yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion pobl eraill. Gwelsom y plant yn mwytho pennau ei gilydd er mwyn cefnogi a chysuro ei gilydd pan oeddent yn teimlo'n drist. Yn gyffredinol, mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael cyfnodau tawel. Llwyddodd y plant i ganolbwyntio am gyfnod parhaus o amser wrth archwilio'r injan dân ryngweithiol, gan wrando ar y synau gwahanol. Mae eraill yn mwynhau chwarae gyda'r teganau synhwyrol, defnyddio'r goleuadau ffibr-optig i ogleisio ei gilydd, gan chwerthin, gwenu, a dweud "*tickle, tickle*".

Weithiau, rhoddir rhyddid i'r plant archwilio'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Er nad yw'r plant yn cael penderfynu pryd yr hoffent chwarae yn yr awyr agored, maent yn cael cyfleoedd i chwarae fel grŵp yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn braf. Gwelsom y plant yn mwynhau casglu'r dail hydrefol a oedd wedi syrthio y tu allan er mwyn paratoi i'w defnyddio i greu llun o ddraenog yn unol â thema'r hydref.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain, er enghraifft, mae'r plant yn bwyta'n annibynnol ac yn ceisio gwisgo eu hesgidiau eu hunain. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth ymhellach yn cael eu methu o hyd yn enwedig yn ystod amser byrbryd.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff gofal yn rhoi gweithdrefnau glanhau a hylendid priodol ar waith. Er enghraifft, mae'r staff gofal yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo â sebon a dŵr cyn bwyta eu bwyd. Wrth newid cewynnau, mae'r gweithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir. Caiff chwistrellydd gwrthfacterol ei ddefnyddio i sychu arwynebau a phwyntiau cyffwrdd rheolaidd.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gyffredinol, maent yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith. Mae'r staff gofal yn ymyrryd yn bwyllog, yn gyflym ac yn briodol. Er enghraifft, pan fydd y plant eisiau'r un darnau jig-so, bydd y staff gofal yn rhoi jig-so arall iddynt.

Mae'r staff gofal yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn siarad â'r plant ar eu lefel nhw. Mae'r staff yn gwobrwyo'r plant â sticeri. Er enghraifft, am eistedd yn briodol wrth y bwrdd wrth fwyta eu byrbryd. Mae'r staff gofal yn trin y plant ag urddas a pharch. Er enghraifft, maent yn sylwi'n gyflym pan fydd y plant yn cael damweiniau ac yn ymdrin ag unrhyw broblemau mewn man preifat. Mae'r staff gofal yn parchu dymuniadau'r plant. Er enghraifft, maent yn ymateb yn gyflym pan fyddant yn gofyn am fwy o graceri.

Mae'r staff gofal yn deall canllawiau arferion gorau Llywodraeth Cymru, *'Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant'*, ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn paratoi byrbrydau iach a chinio cynnes wedi'i goginio i'r plant. Yn ystod amser byrbryd, mae'r staff gofal yn paratoi byrbrydau maethlon fel craceri â menyn a darnau o afal ar blatiau i'r plant, ac yn rhoi dŵr iddynt ei yfed mewn biceri. Caiff y plant eu hatgoffa gan y staff gofal i beidio â bwyta unrhyw fyrbrydau y maent wedi'u gollwng ar y llawr. Fodd bynnag, mae’r staff gofal yn methu rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant yn enwedig yn ystod amseroedd bwyd.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r staff gofal wedi gwella'r arferion cysgu yn y lleoliad. Mae'r staff gofal bellach yn sicrhau y caiff cofnod ei gadw o ble mae'r plant yn cysgu, ac o dymheredd yr ardal honno. Mae'r person â chyfrifoldeb bellach yn cynllunio gweithgaredd dyddiol i'r plant ac yn gwneud cofnod ohono yn ei dyddiadur. Er enghraifft, i gyd-fynd â thema'r hydref, casglu dail a gwneud printiau gan ddefnyddio'r dail hynny. Mae'r person â chyfrifoldeb hefyd yn llunio adroddiad ar gynnydd y plant, a gaiff ei anfon adref at y rhieni. Fodd bynnag, ni chaiff arsylwadau'r staff gofal i olrhain cynnydd y plant eu cadw ar ôl llunio'r adroddiad, ac ni chânt eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi cwblhau'r holl waith datblygu yn yr ardal awyr agored. Maent wedi sicrhau bod ffensys preifatrwydd wedi'u codi ar un ochr o'r ardal a bod adnoddau digonol ar gael, fel teganau reidio, cegin fwd ac ardal chwarae dŵr. Mae'r staff gofal bellach yn sicrhau bod cyfleoedd i'r plant fynd allan i'r awyr agored yn rheolaidd.

Mae'r arweinwyr wedi prynu adnoddau newydd ac wedi datblygu ardal synhwyraidd fel rhan o'r amgylchedd. Cafodd cyfarpar newydd ei osod i wahanu rhai ardaloedd o'r ystafell chwarae er mwyn sicrhau bod y plant iau yn ddiogel. Mae gwelyau bellach ar gael i'r plant sydd am eu defnyddio yn ystod amseroedd cysgu.

Mae'r arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, gan sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan ynddynt yn gwybod sut i adael y lleoliad yn ddiogel mewn argyfwng. Caiff cofnodion ymarferion tân bellach eu cofnodi a'u cadw'n briodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn i ystyried achosion o ddiffyg cydymffurfio, ac felly nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Fodd bynnag, gwnaed digon o welliannau i'n galluogi i newid y radd a ddyfarnwyd yn yr arolygiad diwethaf, sef 'gwael', i 'digonol'.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod nifer digonol o staff â chymwysterau addas yn bresennol bob amser ac yn sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau addasrwydd cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd yr arweinwyr bod pob gwirfoddolwr wedi cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddiweddar. Cadarnhaodd sampl o ffeiliau'r staff a welsom fod y gwiriadau hyn ar gael a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae'r arweinwyr wedi cyflogi aelod ychwanegol o staff cymwysedig yn ddiweddar. O ganlyniad, mae'r hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf bellach wedi'u cau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cadw cofnodion cywir o wybodaeth am y plant. Caiff ffeiliau'r plant bellach eu cwblhau cyn i'r plentyn ddod i'r lleoliad. Roedd ffeiliau'r plant a welsom yn cynnwys y dogfennau perthnasol fel y'u nodwyd yn y rheoliadau. Caiff contractau'r plant a chaniatadau gan y rhieni eu llofnodi gan y rhieni.  O ganlyniad, mae'r maes i'w wella a godwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf bellach wedi'i gau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wella'r lleoliad ac maent wedi ymdrin â'r materion a godwyd yn yr hysbysiadau diffyg cydymffurfio a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 27 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod o leiaf 80% o'r staff nad ydynt yn oruchwylwyr yn meddu ar gymhwyster hyd at lefel dau o leiaf o dan Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. | Cyflawnwyd |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau ar gyfer y staff gofal a'r gwirfoddolwyr cyn iddynt weithio gyda'r plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau cysondeb wrth gadw cofnodion cywir a chlir ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 - Maeth a lles | Parhau i sicrhau y caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Parhau i roi system ar waith i olrhain cynnydd y plant a'i defnyddio i gynllunio'r ddarpariaeth ac i ddatblygu cyfleoedd dysgu a phrofiadau ar gyfer y dyfodol. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/11/2023